



# Tai Amlfeddiannaeth Safonau Trwyddedu



## Safonau Tai Amlfeddiannaeth sy'n amodol ar drwyddedu

Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi creu'r canllaw hwn ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth (TA). Nod y canllaw yw rhoi cyngor i berchnogion, asiantau a meddianwyr am y safonau y dylent eu disgwyl mewn llety o'r fath. Bydd y Safonau Trwyddedu TA hyn yn berthnasol i bob TA trwyddedadwy.

Mae [Nodiadau Canllaw TA](#) ar wneud cais ar gael fel dogfen wahanol.

### Cynnwys

Standards for Accommodation.....	2
General Principles of Occupation .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Room Size Requirements.....	3
Facilities .....	5
Kitchens .....	5
Bathrooms and Water Closets.....	7
Heating .....	8
Electrical Safety and Sockets .....	9
Refuse .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Fire Safety .....	11
Fire Alarm Systems and Routine Testing .....	11
Fire Alarm and Detection Systems .....	13
Other Fire Precautions.....	16
Fire Separation.....	16
Furniture and Furnishings Regulations.....	18
Ventilation within bedrooms.....	18
General Conditions and Management Arrangements .....	18
The following management regulations must be complied with at all times.....	18
Inspections.....	18
Legal Notices.....	19

Os oes angen unrhyw gyngor neu gymorth arnoch ar safonau trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth, cysylltwch â:

Ffôn: 01633 656656

E-bost: [hmo@newport.gov.uk](mailto:hmo@newport.gov.uk) Gwefan: [www.newport.gov.uk/hmo](http://www.newport.gov.uk/hmo)

**LLINELL FRYS ADRODD AM  
LANDLORD TWYLLODRUS**

llinell frys gyhoeddus dienw 24 awr  
01633 235233

Rent Smart Wales .....	20
Appendix I –HMO Licence Conditions .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>

## **Safonau Llety**

Er mwyn pennu nifer y meddiannwyr all feddiannu'r tŷ, rhaid ystyried nifer, math ac ansawdd yr amwynderau sydd ar gael yn yr eiddo. Bydd y safonau ar y tudalennau canlynol yn berthnasol i bob eiddo yn amodol ar drwyddedu.

RHAID i'r safonau gofod gael eu bodloni'n syth bin. Fodd bynnag, os oes cytundebau tenantiaeth presennol, rhaid cydymffurfio erbyn diwedd y denantiaeth unigol. Os yw'r cytundeb hwn am gyfnod hirach na 12 mis, rhaid cymryd camau i feddiannu'r tŷ.

Os yw'n rhesymol ymarferol, rhaid cydymffurfio â phob safon trwyddedau TA. Fodd bynnag, rhaid ystyried pob achos ar ei deilyngdod ei hun oherwydd ni all Cynghorau ddefnyddio cyfres safonau cyffredinol ar gyfer pob TA yn ei ardal, gan beidio ag ystyried amgylchiadau unigol y TA dan sylw. Bydd hyn yn benodol wir o ran y safonau hynny nad ydynt yn dod dan ddeddfwriaeth.

## **Egwyddorion Cyffredinol Meddiannaeth**

Mae'r canllaw canlynol yn rhoi crynodeb o egwyddorion cyffredinol meddiannu TA.

- Mae pob plentyn yn cyfrif fel person cyfan o ran cyfrifo uchafswm y feddiannaeth a ganiateir.
- Ni fydd unrhyw ystafell yn cael ei meddiannu gan fwy na dau berson mewn unrhyw achos.
- Ni chaniateir i bobl o ryw gwahanol dros 12 oed rannu'r un ystafell at ddibenion cysgu oni bai bod nhw mewn oed priodi ac un ai wedi priodi neu'n byw fel partneriaid.
- Dim rhannu ystafell oni bai eich bod chi'n bobl sy'n byw gyda'i gilydd fel cwpl.
- Ni fydd unrhyw uned lety yn cael ei meddiannu ar sail tenantiaeth neu drwydded ar wahân neu a rennir. Mae hyn er mwyn osgoi'r sefyllfa'n codi lle gallai uned lety gael ei meddiannu gan bobl wahanol ar adegau gwahanol o'r diwrnod neu ddyddiau gwahanol yr wythnos (er enghraifft gweithwyr shifftiau neu dymhorol/gweithwyr mudol sy'n meddiannu eiddo ar y cyd â'u cyflogaeth).
- Dim ond ystafelloedd a ddynodir yn ystafelloedd byw, ystafelloedd gwely neu ystafelloedd eistedd/gwely all gael eu defnyddio at ddibenion byw neu gysgu.
  - Bydd gofod cylchredeg megis cynteddau, neuaddau ac ystafelloedd eraill megis ceginau, ystafelloedd molchi neu seleri, gofodau to ac ati yn cael eu hystyried yn anaddas i'w defnyddio fel llety cysgu neu fyw.
- Waeth beth yw'r arwynebedd llawr cyffredinol, ystyrir siâp a'r gofod byw y mae modd ei ddefnyddio yn yr ystafell wrth bennu a yw'n addas i feddiannu.
 

space within the room when determining its suitability for occupation. Ni fyddwn yn ystyried unrhyw ran o ystafell os yw uchder y to yn is na 1.5m. Dylai uchder delfrydol y to fod o leiaf 1.9m.
- Nid yw ystafell wely/eistedd sengl yn cynnwys cyfleusterau coginio yn addas ar gyfer plentyn o dan 10 oed.

Os oes angen unrhyw gyngor neu gymorth arnoch ar safonau trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth, cysylltwch â:

Ffôn: 01633 656656

E-bost: [hmo@newport.gov.uk](mailto:hmo@newport.gov.uk) Gwefan: [www.newport.gov.uk/hmo](http://www.newport.gov.uk/hmo)

**LLINELL FRYS ADRODD AM  
LANDLORD TWYLLODRUS**

llinell frys gyhoeddus dienw 24 awr  
01633 235233

## **Gofynion Maint Ystafelloedd**

Mae'r canllaw canlynol yn rhoi gwybodaeth am yr arwynebedd llawr gofynnol sydd ei angen ar gyfer ystafelloedd ym mhob categori TA, yn seiliedig ar nifer y bobl sy'n byw yno.

### **FFLATIAU UN YSTAFELL**

#### **Llety un person**

Uned un ystafell	
13m <sup>2</sup> gan gynnwys cyfleusterau cegin	
10m <sup>2</sup> os oes cegin ar wahân a rennir*	

\*os oes cegin ar wahân a rennir rhaid iddi fod o leiaf 2.5m<sup>2</sup> fesul person sy'n defnyddio'r cyfleusterau

#### **Llety dau berson neu fwy**

Uned un ystafell	
18m <sup>2</sup> gan gynnwys cyfleusterau cegin	
13m <sup>2</sup> os oes cegin ar wahân a rennir*	

Dau neu fwy o unedau ystafelloedd (yn y fflat un ystafell)	
Pob cegin	3m <sup>2</sup>
Pob ystafell fyw/cegin	10m <sup>2</sup>
Pob ystafell fyw/ystafell wely	10m <sup>2</sup>
Pob ystafell fyw	8.5m <sup>2</sup>
Pob ystafell wely	6.51m <sup>2</sup>

Dau neu fwy o unedau ystafelloedd (yn y fflat un ystafell)	
Pob cegin	5m <sup>2</sup>
Pob ystafell fyw/cegin	13m <sup>2</sup>
Pob ystafell fyw/ystafell wely	13m <sup>2</sup>
Pob ystafell fyw	10m <sup>2</sup>
Pob ystafell wely	10m <sup>2</sup>

### **TAI A RENNIR A LLETYWYR**

#### **Llety un person**

Uned un ystafell	
Ystafell Wely	6.51m <sup>2</sup>

#### **Llety dau berson**

Uned un ystafell	
Ystafell Wely	11m <sup>2</sup>

Ystafelloedd cyffredin	Hyd at 5 o bobl	6 pherson	7 person	8 person	9 person	10 person
Ceginau	7m <sup>2</sup>	10m <sup>2</sup>	10m <sup>2</sup>	10m <sup>2</sup>	10m <sup>2</sup>	10m <sup>2</sup>
Ystafelloedd byw	10m <sup>2</sup>	12m <sup>2</sup>	14m <sup>2</sup>	16m <sup>2</sup>	18m <sup>2</sup>	20m <sup>2</sup>

### **HOSTELI, TAI GWESTEION, GWELY A BRECWAST**

Bydd safonau'r eiddo hyn yn dibynnu ar natur y feddiannaeth a byddai'r safonau priodol yn dod o un o'r Categoriâu eraill hyn. Cysylltwch â'r Tîm Tai Iechyd yr Amgylchedd i gael mwy o wybodaeth.

### **CARTREFI GOFAL PRESWYL**

Caiff safonau'r categori hwn o eiddo eu pennu gan amodau'r Rheoliad Cartrefi Gofal Cofrestredig ac amodau Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.  
Registered Care Home Regulation and from the South Wales Fire & Rescue Service. Bydd safonau'r eiddo hyn nad oes angen iddynt gofrestru dan y rheoliadau hyn yn dibynnu ar natur y feddiannaeth a byddai'r safonau priodol yn dod o un o'r Categoriâu eraill hyn. Cysylltwch â'r Tîm Tai Iechyd yr Amgylchedd i gael mwy o wybodaeth.

### **FFLATIAU HUNAN-GYNHALIOL**

Os oes angen unrhyw gyngor neu gymorth arnoch ar safonau trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth, cysylltwch â:

Ffôn: 01633 656656

E-bost: [hmo@newport.gov.uk](mailto:hmo@newport.gov.uk) Gwefan: [www.newport.gov.uk/hmo](http://www.newport.gov.uk/hmo)

**LLINELL FRYS ADRODD AM  
LANDLORD TWYLLODRUS**

llinell frys gyhoeddus dienw 24 awr  
01633 235233

**Llety un person****Uned un ystafell**

13m<sup>2</sup> gan gynnwys ystafell fyw, cegin ac ystafell wely

**Dwy neu fwy o unedau ystafelloedd**

Pob cegin	3m <sup>2</sup>
Pob ystafell fyw/cegin	10m <sup>2</sup>
Pob ystafell fyw/ystafell wely	10m <sup>2</sup>
Pob ystafell fyw	8.5m <sup>2</sup>
Pob ystafell wely	6.51m <sup>2</sup>

**Llety dau berson neu fwy****Uned un ystafell**

18m<sup>2</sup> gan gynnwys ystafell fyw, cegin ac ystafell wely

**Dwy neu fwy o unedau ystafelloedd**

Pob cegin	5m <sup>2</sup>
Pob ystafell fyw/cegin	13m <sup>2</sup>
Pob ystafell fyw/ystafell wely	13m <sup>2</sup>
Pob ystafell fyw	10m <sup>2</sup>
Ystafell wely gyntaf	11m <sup>2</sup>
Ystafell wely ychwanegol	6.51m <sup>2</sup>

**Canllawiau ar gymryd mesuriadau**

Dim ond gofod byw ymarferol y mae modd ei fesur. Nid yw'r gofod hwn:

- Yn cynnwys unrhyw arwynebedd llawr gyda chyfleusterau ystafell ymolchi yn yr ystafell.
- Yn cynnwys brest y simdde nac alcofau bychan.
- Yn cynnwys arwynebedd llawr lle mae uchder y to yn is na 1.5m.
- Yn cynnwys arwynebedd llawr yn y bondo unrhyw ystafelloedd atig lle mae uchder y soffit yn is na 1.5m.

Os oes angen unrhyw gyngor neu gymorth arnoch ar safonau trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth, cysylltwch â:

Ffôn: 01633 656656

E-bost: [hmo@newport.gov.uk](mailto:hmo@newport.gov.uk) Gwefan: [www.newport.gov.uk/hmo](http://www.newport.gov.uk/hmo)

**LLINELL FRYS ADRODD AM  
LANDLORD TWYLLODRUS**

llinell frys gyhoeddus dienw 24 awr  
01633 235233

## Cyfleusterau

Mae angen i'ch eiddo fod â swm digonol o gyfleusterau ar gyfer nifer y meddianwyr. Mae'r canllawiau yn y rhannau canlynol yn nodi'r gofynion ar gyfer ceginau, ystafelloedd ymolchi/cawod a thoiledau.

## Ceginau

Rhaid i gyfleusterau cegin fod ar wahân neu mewn ardal wedi'i nodi'n glir a chynnwys y darpariaethau gofynnol canlynol.

	Hyd at 5 o bobl	6 neu fwy o bobl
Sinciau	Fflatiau un ystafell - mae'n rhaid i bob annedd sydd â chyfleusterau coginio fod â sinc gyda chyflenwad dŵr poeth cyson a digonol.	
	Rhaid bod sinc a bwrdd diferu o faint addas, gyda chyflenwad o ddŵr oer a dŵr poeth cyson a gysylltir yn iawn â'r system draeniau.	Rhaid darparu sinc neu beiriant golchi llestri ychwanegol ar gyfer bob 5 person ychwanegol
Storio Bwyd	Bydd pob annedd ar wahân yn cael storfa fwyd sych o hanner uned sail safonol, neu uned wal safonol (gyfwerth â 0.16m <sup>2</sup> ). Os canfyddir bod y meddianwyr yn storio bwyd yn eu hystafelloedd neu os ydym yn derbyn cwynion ynghylch bwyd yn mynd ar goll bydd angen i'r storfa fwyd sych gael ei chloi. Ni fydd y gofod o dan uned sinc yn cael ei dderbyn, ei awyru neu fel arall	
Oergell	Rhaid rhoi oergell ym mhob cegin.	Rhaid rhoi oergell ychwanegol mewn cegin ar gyfer bob 5 person ychwanegol (waeth beth fo'u hoedran).
Rhwgell	Rhaid darparu uned rewgell.	Rhaid rhoi uned rewgell ychwanegol mewn cegin ar gyfer bob 5 person ychwanegol (waeth beth fo'u hoedran).
Paratoi Bwyd	Bydd gan bob meddiannaeth ar wahân a chegin a rennir arwynebau gwaith anhreiddiadwy addas a digonol i alluogi defnyddwyr i baratoi bwyd yn ddiogel ac yn hylan. Dylid darparu arwyneb paratoi o 1.5 metr llinellol, ac mae'n rhaid i ran ohono fod gyferbyn â'r cyfleusterau coginio	Dylid darparu arwyneb paratoi ychwanegol o 1.5 metr llinellol ar gyfer pob 5 person ychwanegol
Coginio	Fflatiau un ystafell - Bydd pob annedd yn cael teclyn coginio iawn. (2 hob neu blât poeth gyda naill ai gril neu bopty yw'r hyn sy'n ofynnol ac yn dderbyniol).	
	Ceginau a rennir, popty gyda 3 neu 4 hob neu blât poeth gyda gril a phopty	Dylid darparu popty ychwanegol gyda 3 neu 4 hob neu blât poeth gyda gril a phopty neu ficro-don ar gyfer pob 5 person ychwanegol (Ni fydd unrhyw gegin yn cynnwys mwy na 2 declyn coginio)

Os oes angen unrhyw gyngor neu gymorth arnoch ar safonau trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth, cysylltwch â:

Ffôn: 01633 656656

E-bost: [hmo@newport.gov.uk](mailto:hmo@newport.gov.uk) Gwefan: [www.newport.gov.uk/hmo](http://www.newport.gov.uk/hmo)

**LLINELL FRYS ADRODD AM  
LANDLORD TWYLLODRUS**

llinell frys gyhoeddus dienw 24 awr  
01633 235233

Socedi Trydanol	Rhaid i socedi trydanol fod yn ddigonol i hwyluso defnydd pob peiriant sefydlog (h.y. peiriant golchi, oergell) a dau soced dwbl ychwanegol uwchben yr arwyneb gwaith.
Awyru	Os nad oes ffenestr yn agor allan neu os oes llwydni yn tyfu yn y gegin, bydd peiriant awyru cegin yn cael ei osod i'r aer allanol ar raddfa echdynnu ofynnol o 60 litr/eiliad neu 30 litr/eiliad os yw'r ffan wedi'i lleoli o fewn 300mm o ganol yr hob.

### Manyleb Gyffredinol sy'n berthnasol i bob categori TA

- Nid yw cegin sengl yn addas i fwy na 10 person ei defnyddio waeth beth fo'r maint.
- Rhaid i bob cegin, waeth os yw ar gyfer defnydd sengl neu ddefnydd a rennir, fod â gorchuddion llawr anhreiddiadwy, sy'n rhesymol llyfn ac yn hawdd eu glanhau ac sydd ar wahân o unrhyw arwynebedd llawr â charped gan ddefnyddio stripiâu gwahanu sefydlog. Yn ddelfrydol, dylai gorchuddion llawr fod yn rhai gwrth-lithro.
- Dylai waliau a nenfydau hefyd fod yn rhesymol llyfn fel bod modd eu cadw'n lân a'u hail-addurno'n rhydd.
- Rhaid trefnu ceginau mewn ffordd sy'n golygu bod modd paratoi a thrin bwyd poeth yn ddiogel.
- Yn benodol, rhaid i'r poptai fod wedi'u lleoli i ffwrdd o unrhyw ddrws a all agor ar berson sy'n sefyll o flaen y popty a'i daro ac mae'n rhaid eu lleoli'n ddiogel o fewn yr ystafell fel nad ydynt yn cyfaddawdu'r broses ddiac mewn achos tân sy'n gysylltiedig â'r popty. Yn benodol, ni chaniateir lleoli poptai nwy yn union gyferbyn â ffenestri y mae modd eu hagar lle mae fflamau'n debygol o gael eu diffodd gan wynt eithafol neu os yw llenni yn debygol o fynd ar dân.
- Rhaid sicrhau gofod digonol o flaen unrhyw bopty i bobl allu cael bwyd poeth ohono. Dylai hefyd fod arwynebau gwaith sefydlog ar naill ochr unrhyw bopty.
- Rhaid i sinciau fod â chefnwrdd teils gwrth-ddŵr neu debyg (lle mae'r sinc yn ymylu ar ffenestr, rhaid i'r sil ffenestr fod â chladin teils gwrth-ddŵr neu debyg) yn ymestyn i uchder gofynnol o 150mm uwchben top y sinc. Rhaid bod uniad gwrth-ddŵr hyblyg rhwng y sinc a'r cefnwrdd.
- Rhaid i arwynebau paratoi bwyd fod yn anhydraid, gwrth-gwres, yn wydn ac yn cynnwys deunyddiau hawdd eu glanhau. Os yw'r rhain yn sefydlog, rhaid i'r uniad rhwng yr arwyneb paratoi bwyd ac unrhyw unedau ymylol neu'r wal fod yn ddwrglos ac mae'n rhaid cael cefnwrdd â theils fel y nodir uchod ar gyfer sinciau.
- Rhaid cael ei osod yn ôl cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr ac yn benodol, rhaid i boptai trydanol fod wedi'u cysylltu gyda swits a ffiws â graddfa briodol. Rhaid i boptai nwy fod wedi'u gosod gyda chyfyngiad diogelwch i'w hatal rhag troi drosodd.
- Os yw pryddau'n rhan o'r trefniadau eang efallai bydd angen i'r landlord/perchennog gofrestru fel busnes bwyd gyda Chyngor y Ddinas a chydymffurfio â gofynion Deddf Bwyd Diogelwch 1990 ac unrhyw reoliadau perthnasol.

Os oes angen unrhyw gyngor neu gymorth arnoch ar safonau trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth, cysylltwch â:

Ffôn: 01633 656656

E-bost: [hmo@newport.gov.uk](mailto:hmo@newport.gov.uk) Gwefan: [www.newport.gov.uk/hmo](http://www.newport.gov.uk/hmo)

**LLINELL FRYS ADRODD AM  
LANDLORD TWYLLODRUS**

llinell frys gyhoeddus dienw 24 awr  
01633 235233

## Ystafelloedd Ymolchi a Thoiledau

Os nad yw un neu bob uned o lety byw yn cynnwys cyfleusterau ystafell ymolchi ar gyfer defnydd unigol pob annedd, rhaid sicrhau nifer ddigonol o ystafelloedd ymolchi a thoiledau i alluogi'r cyfleusterau hynny i gael eu defnyddio ar sail a rennir. Mae'r tabl canlynol yn rhoi canllaw ar y gofynion ar gyfer ystafelloedd ymolchi/cawod a thoiledau.

Nifer o Bersonau	Diffiniadau		
	Ystafell Ymolchi Gyfun neu Ystafell Gawod Gyfun - ystafell sy'n cynnwys bath neu gawod, toiled a sinc golchi dwylo	Ystafell Ymolchi neu Ystafell Gawod - ystafell sy'n cynnwys bath neu gawod a sinc golchi dwylo'n unig	Toiled - ystafell sy'n cynnwys toiled a sinc golchi dwylo'n unig
	Gofynion		
1 i 4	1 Ystafell Ymolchi Gyfun neu 1 Ystafell Gawod Gyfun		
5	1 Ystafell Ymolchi neu 1 Ystafell Gawod + 1 Toiled ar Wahân		
6	2 Ystafell Ymolchi Gyfun neu 2 Ystafell Gawod Gyfun		
7 i 9	1 Ystafell Ymolchi Gyfun neu 1 Ystafell Gawod Gyfun + 1 Ystafell Ymolchi neu 1 Ystafell Gawod + 1 Toiled ar Wahân		
10	2 Ystafell Ymolchi neu 2 Ystafell Gawod + 2 Doiled ar Wahân		
11 i 14	1 Ystafell Ymolchi Gyfun neu 1 Ystafell Gawod Gyfun + 2 Ystafell Ymolchi neu 2 Ystafell Gawod + 2 Doiled ar Wahân		
15	3 Ystafell Ymolchi neu 3 Ystafell Gawod + 3 Thoiled ar Wahân		

Bydd dewisiadau amgen derbyniol yn cael eu hystyried.

### Manyleb Gyffredinol sy'n berthnasol i bob categori TA

- Rhaid i bob ystafell ymolchi neu gydrannau ar wahân yn cynnwys toiled fod â sinc golchi dwylo.
- Ni chaniateir gosod bath neu gawod mewn ceginau llety a rennir.
- Rhaid i bob bath neu gawod fod â chyflenwad cyson a digonol o ddŵr poeth ac oer.
- Rhaid i bob sinc golchi dwylo fod â chefnwrdd teils a chyflenwad cyson a digonol o ddŵr poeth ac oer.
- Bydd yr ystafelloedd ymolchi o faint digonol i sicrhau bod lle i ddefnyddwyr sychu eu hunain a gwisgo heb unrhyw gyfyngiadau amhriodol.
- Bydd lloriau'r ystafelloedd ymolchi yn anhreiddiadwy, yn rhesymol llyfn ac yn hawdd eu glanhau. Yn ddefnyddiol, dylai gorchuddion llawr fod yn rhai gwrth-lithro.
- Dylai waliau'r ystafelloedd ymolchi fod yn hawdd eu glanhau.

Os oes angen unrhyw gyngor neu gymorth arnoch ar safonau trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth, cysylltwch â:

Ffôn: 01633 656656

E-bost: [hmo@newport.gov.uk](mailto:hmo@newport.gov.uk) Gwefan: [www.newport.gov.uk/hmo](http://www.newport.gov.uk/hmo)

**LLINELL FRYS ADRODD AM  
LANDLORD TWYLLODRUS**

llinell frys gyhoeddus dienw 24 awr  
01633 235233

- Rhaid i ffenestri a drysau'r ystafelloedd ymolchi fod â gwydr afloyw fel sy'n briodol.
- Rhaid gosod dull cloi mewnol addas e.e. clo troi â bawd neu glo sy'n sleidio (ni chaniateir cloeau ag allwedd), yn yr ystafell ymolchi neu doiled, a rhaid iddo fod allan o afael plant i sicrhau preifatrwydd.
- Bydd system ddraenio priodol yn cael ei gosod ym mhob tŷ a bydd pob system ddraenio uwchben ac o dan y tir yn cydymffurfio â gofynion y Rheoliadau Adeiladu sydd ar waith ar hyn o bryd.
- Rhaid i bob ystafell ymolchi/cawod/toiled fod â system awyru digonol. Rhaid gosod ffan echdynnu beirianyddol sydd â graddfa echdynnu o leiaf 15 litr yr eiliad gyda gor-rediad o 20 munud os nad oes ffenestr y mae modd ei agor i gynnig awyru naturiol. Fel arall, rhaid darparu echdynnwr sy'n cael ei reoli gan humidistat.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am ofynion yr ystafell ymolchi a'r toiled, cysylltwch â Thîm Tai Iechyd yr Amgylchedd trwy ffonio 01633 656656 neu e-bostio [hmo@newport.gov.uk](mailto:hmo@newport.gov.uk)

## **Gwres**

### **Pob math o systemau gwres**

Bydd pob system wres yn gallu cynnal y tymereddau mewnol canlynol pan fydd y tymheredd y tu allan yn -1°C. Dylai'r system wres fod ar gael bob tro, dylai'r meddiannwr allu ei rheoli a'i gosod i raglen.

Ystafelloedd gwely, lolfa/ystafell fwyta	21° C
Ystafell ymolchi / ystafell gawod / toiled	22° C
Lleoedd eraill, gan gynnwys ceginau, landin cyffredinol / grisiau / cynteddau	18° C

Dylai ystafelloedd byw gael ffynhonnell wres ychwanegol os yw tân nwy ar gael.

### **Pan nad oes gwres canolog nwy, trydanol neu olew**

Dylid dylunio a gosod system wres trydanol lawn ar gyfer yr holl adeilad gan ddefnyddio gwresogyddion storio. Bydd y system yn cynnwys yr hyn a ganlyn: Ym mhob ystafell wely/eistedd bydd gwresogydd storio ffan gyda gwresogydd ychwanegol dan reolaeth thermostat. Ym mhob ystafell wely/eistedd, oni bai am y rheiny rhwng 8 ac 11 m2 gydag un wal allanol, to gydag uchder safonol, a chydag gofod uchod ac isod wedi'i wresogi, bydd gwresogyddion panel trydanol ar y wal gydag amseryddion a thermostat trydanol.

Bydd gwresogyddion storio neu wresogyddion llif i lawr pan fo angen fel arall mewn ceginau maint digonol ac ystafelloedd ymolchi .

Bydd gan bob gwresogydd storio reolaeth gwefru awtomataidd ac allbwn dan reolaeth thermostat.

Bydd gan bob gwresogydd storio reolaeth gwefru awtomataidd ac allbwn dan reolaeth thermostat.

O ran maint a safle gwresogyddion storio bydd angen ystyried y dull a nodir yn DOM 8: Guide to the design of Electrical Space Heating Systems, The Electrical Heating and Ventilation Association, 2006. Yn benodol, bydd y system yn cael ei dylunio fel bod 90% o'r gofyniad gwres blyneddol ar gael ar y raddfa allfrig.

Os oes angen unrhyw gyngor neu gymorth arnoch ar safonau trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth, cysylltwch â:

Ffôn: 01633 656656

E-bost: [hmo@newport.gov.uk](mailto:hmo@newport.gov.uk) Gwefan: [www.newport.gov.uk/hmo](http://www.newport.gov.uk/hmo)

**LLINELL FRYS ADRODD AM  
LANDLORD TWYLLODRUS**

llinell frys gyhoeddus dienw 24 awr  
01633 235233



Dylid sicrhau bod pob manylyn y system wres a gynigir yn cael ei roi i Dîm Tai Iechyd yr Amgylchedd ynghyd â manylion costau rhedeg disgwylidig i ni eu hystyried. Ni ddylid dechrau ar unrhyw waith hyd nes bod y system wres wedi'i chymeradwyo gan Dîm Tai Iechyd yr Amgylchedd.

Rhaid i'r holl waith gydymffurfio â fersiwn ddiweddaraf Rheoliadau IEE a Rhan P y Rheoliadau Adeiladu presennol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am ofynion gwres, cysylltwch â Thîm Tai Iechyd yr Amgylchedd ar Ffôn: 01633 656656 neu e-bostiwrch: [hmo@newport.gov.uk](mailto:hmo@newport.gov.uk)

## **Diogelwch Trydanol a Socedi**

Nodir isafswm y socedi ddylid eu darparu yn y tabl isod. Bydd y socedi wedi'u lleoli mewn ystafelloedd unigol i leihau'r defnydd o geblau estyn.

Math o Ystafell	Ystafelloedd Annedd Bychan - Canolig Fel arfer 4-25m <sup>2</sup>	Ystafelloedd Annedd Mwy Fel Arfer 25-225m <sup>2</sup>
Ystafell Fyw	4	6
Ystafell Fwyta	4	4
Ystafell Wely	4	4
Ystafelloedd Astudio	4	6
Ystafell Amlbwrpas	4	4
Neuaddau	1	2
Ceginau	Rhaid i socedi trydanol fod yn ddigonol i hwyluso defnydd pob peiriant sefydlog (h.y. peiriant golchi, oergell) a dau soced dwbl ychwanegol uwchben yr arwyneb gwaith.	

### **Manyleb Gyffredinol sy'n berthnasol i bob categori TA**

Yn unol â BS 7671 (Rheoliadau Gosodiadau Trydanol) Rhaid i bob soced sy'n debygol o gyflenwi offer symudol i'w ddefnyddio tu allan fod â diogelwch dyfais cerrynt gweddilliol 30mA.

Rhaid i unrhyw swits, soced neu offer trydanol yn yr ystafell ymolchi gael ei leoli'n ddiogel a chydymffurfio â fersiwn ddiweddaraf Rheoliadau IEE a Rhan P y Rheoliadau Adeiladu presennol.

Os bydd unrhyw waith trydanol yn cael ei wneud, rhaid iddo gael ei gynnal gan berson cymwys awdurdodedig wedi cofrestru dan gynllun hunan-ardystio i gydymffurfio â Rhan P y Rheoliadau Adeiladu presennol. Dylai gwaith trydanol gael Tystysgrif Gwaith Mân a dylai'r gwaith Gosod Trydanol gael ei archwilio gan berson cymwys bob 5 mlynedd oni bai y nodir bod angen gwneud hyn yn amlach.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am ofynion trydanol, cysylltwch â Thîm Tai Iechyd yr Amgylchedd drwy ffonio 01633 656656 neu e-bostio [hmo@newport.gov.uk](mailto:hmo@newport.gov.uk)

Os oes angen unrhyw gyngor neu gymorth arnoch ar safonau trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth, cysylltwch â:

Ffôn: 01633 656656

E-bost: [hmo@newport.gov.uk](mailto:hmo@newport.gov.uk) Gwefan: [www.newport.gov.uk/hmo](http://www.newport.gov.uk/hmo)

**LLINELL FRYS ADRODD AM  
LANDLORD TWYLLODRUS**

llinell frys gyhoeddus dienw 24 awr  
01633 235233

## Gwastraff

Bydd angen i ddeiliad y drwydded sicrhau bod cynwysyddion a chyfleusterau storio addas a digonol ar gael er mwyn storio gwastraff cyffredinol y cartref ac ailgylchu yn yr eiddo.

Nodir yr hawliad maint bin gwastraff domestig isod ac mae deiliad y drwydded yn gymwys ar gyfer un bin olwynion domestig fesul eiddo os yw'r dreth gyngor yn cael ei thalu (waeth pwy sy'n talu'r dreth gyngor). Ar gyfer casgliadau ailgylchu mae'r cymhwysedd yn dibynnu ar nifer yr anheddau. Nodir y cymhwysedd ar gyfer gwastraff domestig ac ailgylchu isod:

GWASTRAFF GWEDDILLIOL		
Meddianwyr TA	Hawliad biniau	Tra'n aros am fin
Hyd at 5 o bobl	Bin 120 litr	2 sach
6-8 o bobl	Bin 180 litr	3 sach
9 neu fwy	Bin 240 litr	4 sach

Ar gyfer casgliadau ailgylchu mae'r cymhwysedd yn dibynnu ar nifer yr anheddau ac fe'i nodir isod:

AILGYLCHU			
Eiddo unigol*		Fflatiau	
Waeth beth yw nifer y preswylwyr	1 bocsglas ar gyfer papur, eitemau trydanol bach, tecstilau	Bocsgys ymyl y ffordd (gweler y golofn ar y chwith)	Hyd at 5 o fflatiau
	1 bocsgwyrdd: cardfwrdd a gwydr	1 x bin 360 litr ar gyfer cerdyn/papur; 1 x bin 360 litr ar gyfer plastigion/caniau; 1 x bin 240 litr ar gyfer gwydr; 1 x bin 240 litr ar gyfer bwyd a chadis bwyd.	6-12 o fflatiau
	1 bag coch amldro: caniau, plastigau	1 x bin 660 litr ar gyfer cerdyn/papur; 1 x bin 660 litr ar gyfer plastigion/caniau; 1 x bin 360 litr ar gyfer gwydr; 1 x bin 240 litr ar gyfer bwyd a chadis bwyd	12-18 o fflatiau
	1 cadibwyd bach (mewnol) ac 1 cadibwyd mawr (allanol) ar gyfer gwastraff bwyd	2 x bin 660 litr ar gyfer cerdyn/papur; 2 x bin 660 litr ar gyfer plastigion/caniau; 2 x bin 360 litr ar gyfer gwydr; 1 x bin	18-24 o fflatiau

Os oes angen unrhyw gyngor neu gymorth arnoch ar safonau trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth, cysylltwch â:

Ffôn: 01633 656656

E-bost: [hmo@newport.gov.uk](mailto:hmo@newport.gov.uk) Gwefan: [www.newport.gov.uk/hmo](http://www.newport.gov.uk/hmo)

**LLINELL FRYS ADRODD AM  
LANDLORD TWYLLODRUS**

llinell frys gyhoeddus dienw 24 awr  
01633 235233

		240 litr ar gyfer bwyd a chadis bwyd.	
--	--	---------------------------------------	--

\*Os yw'r preswylwyr yn cynhyrchu mwy o ailgylchu, gallant ofyn am gynwysyddion ailgylchu ychwanegol ar gais

Capasiti (litr)	Lled (mm)	Dyfnnder (mm)	Uchder (m)
240	575	730	1060
360	580	875	1080
660	1360	780	1190

Yn achos TA sydd â mwy na phedwar o anheddau (mae hyn yn berthnasol i fflatiau os oes mwy na 4 annedd, neu lety a rennir os yw mwy na 4 o bobl ar wahân yn talu'r dreth gyngor), bydd angen archwiliad safle ar y TA i asesu'r ardal storio ac i bennu lefel y cynwysyddion sydd eu hangen. Cyfrifoldeb deiliad y drwydded ar ddechrau'r tenantiaethau yw trefnu archwiliad safle gyda'r Tîm Rheoli Gwastraff. Gallwch drefnu hyn gyda Chanolfan Gyswilt Cyngor Dinas Casnewydd ar y rhif ffôn: 01633 656656.

## Diogelwch Tân

Bydd angen system canfod tân ar bob categori o TA. Bydd y canllaw dilynol yn cynnig crynodeb o'r lefelau gwahanol o ganfyddiad sydd eu hangen.

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn cynnig gwasanaeth archwilio TA cyn-trwydded am ffi i landlordiaid/perchnogion sy'n ystyried gweithredu TA. Yn dilyn archwiliad, bydd atodlen y gwaith gyda'r cynlluniau llawr atodedig yn cael ei rhoi i chi'n nodi gofynion pe byddai'r eiddo'n cael ei drwyddedu, gan gynnwys diogelwch tân (mewn rhai achosion). I drefnu a thalu am archwiliad cyn-trwydded, ewch i [www.newport.gov.uk/hmo](http://www.newport.gov.uk/hmo). I drafod y gwasanaeth cysylltwch â ni ar 01633 656656 neu e-bostiwch [hmo@newport.gov.uk](mailto:hmo@newport.gov.uk)

## **Systemau Larwm Tân a Phroffion Rheolaidd**

Mae'r rhan ganlynol yn nodi mathau'r canfyddiadau tân awtomataidd a'r systemau larwm ochr yn ochr â gofynion o ran profion rheolaidd a gwaith cynnal a chadw.

### Systemau Gradd A

System o synwryddion mwg/gwres wedi'u cysylltu â'r prif gyflenwad trydan, sy'n gysylltiedig â phanel rheoli i roi gwybodaeth ar leoliad y tân neu unrhyw broblem. Yn gyffredinol, rhaid i'r system gynnwys pwyntiau galw ar bob lefel llawr a ger manau ymadael terfynol. Rhaid i signal y larwm gyflawni lefelau sain heb fod yn llai na 65dB (A) ym mhob man hygyrch o'r adeilad a ddim llai na 75dB (A) ar bob pen gwely neu pan fydd yr holl ddrysau wedi'u cau. Ni ddylai'r cyflenwad trydanol i'r system rhybuddio am dân fod ar ffurf cerdyn neu fesurydd talu ymlaen llaw. Ni ddylai'r cyflenwad gael ei darfu ac mae dan reolaeth y Landlord.

Lefel y Gorchudd		Gofynion Profi a Chynnal a Chadw	
LD2	LD3	Profion Arferol	Cynnal a Chadw Arferol
Os oes angen unrhyw gyngor neu gymorth arnoch ar safonau trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth, cysylltwch â:		<b>LLINELL FRYS ADRODD AM LANDLORD TWYLLODRUS</b>	
Ffôn: 01633 656656		llinell frys gyhoeddus dienw 24 awr	
E-bost: <a href="mailto:hmo@newport.gov.uk">hmo@newport.gov.uk</a> Gwefan: <a href="http://www.newport.gov.uk/hmo">www.newport.gov.uk/hmo</a>		01633 235233	

System yn cynnwys synwryddion mewn mannau cyffredin sy'n rhan o'r llwybr dianc, ac ym mhob ystafell sydd â risg tan uchel (Ceginau, Ystafelloedd Gwely, Ystafelloedd Byw) i'r meddianwyr.	System yn cynnwys synwryddion mewn mannau cyffredin sy'n rhan o'r llwybr dianc o'r annedd yn unig (Neuaddau, Landins, Lolfa a Chegin).	Dylid profi o leiaf un synwrydd neu bwynt galw ym mhob parth bob wythnos i sicrhau bod y system yn gweithio'n gywir. Dylid cofnodi unrhyw nam yn y llyfr log ochr yn ochr â'r camau a gymerwyd i'w drwsio.	Dylai person cymwys, fel arfer peiriannydd larwm arbenigol gynnal gwasanaeth bob chwe mis i sicrhau cydymffurfiaeth gyda BS 5839-6: fersiwn bresennol. Dylid cofnodi hwn yn y llyfr log.
---	--	--	--

### **Systemau Gradd D**

System sydd ag un neu fwy o larymau mwg/gwres wedi'u cysylltu â'r prif gyflenwad y mae gan bob un gyflenwad batri wrth gefn. Does dim panel rheoli. Ni ddylai'r cyflenwad trydanol i'r system rhybuddio am dân fod ar ffurf cerdyn neu fesurydd talu ymlaen llaw.

Lefel y Gorchudd		Gofynion Profi a Chynnal a Chadw	
LD2	LD3	Profion Arferol	Cynnal a Chadw Arferol
System yn cynnwys synwryddion mewn mannau cyffredin sy'n rhan o'r llwybr dianc, ac ym mhob ystafell sydd â risg tan uchel (Ceginau, Ystafelloedd Gwely, Ystafelloedd Byw) i'r meddianwyr.	System yn cynnwys synwryddion mewn mannau cyffredin sy'n rhan o'r llwybr dianc o'r annedd yn unig (Neuaddau, Landins, Lolfa a Chegin).	Dylai'r systemau hyn gael eu profi bob mis gan ddefnyddio'r botwm prawf ar y synwrydd mwg/gwres.	Rhaid eu profi'n flynyddol i sicrhau cydymffurfiaeth â BS 5839-6: fersiwn bresennol. Rhaid i bob synwrydd gael ei lanhau'n gyfnodol yn unol ag argymhellion y gwneuthurwr.

### **Pob System**

Dylid profi'r synwryddion o leiaf unwaith y flwyddyn i sicrhau eu bod nhw'n ymateb i fwg/gwres. NI ddylai'r profion gynnwys defnyddio unrhyw fath o fwg neu aerosol amhenodol all lygru siambr synhwyrro neu gydrannau trydanol y synwrydd. Mae aerosolau profi addas ar gael. Gall peiriannwr larymau penodol gynnal y profion hyn fydd yn cyflwyno tystysgrif prawf synhwyrro.

Os oes angen unrhyw gyngor neu gymorth arnoch ar safonau trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth, cysylltwch â:

Ffôn: 01633 656656

E-bost: [hmo@newport.gov.uk](mailto:hmo@newport.gov.uk) Gwefan: [www.newport.gov.uk/hmo](http://www.newport.gov.uk/hmo)

**LLINELL FRYS ADRODD AM  
LANDLORD TWYLLODRUS**

llinell frys gyhoeddus dienw 24 awr  
01633 235233

## Systemau Larymau a Chanfod Tân

Mae'r canllaw hwn yn rhoi crynodeb o'r mesurau diogelwch tân a nodir yn "Housing - Fire Safety: Guidance on fire safety provisions for certain types of existing housing" wedi'i gyhoeddi gan LACORS ym mis Awst 2008. Mae ar gael yn [www.lacors.gov.uk](http://www.lacors.gov.uk). Mae'r Canllaw LACORS Cenedlaethol yn argymhell bod datrysiadau unigol ar sail risg i ddiogelwch tân yn cael eu defnyddio ym mhob eiddo unigol. Canllaw yn unig yw'r gwaith a nodir yn y ddogfen hon; mae'n bosibl y bydd angen mesurau amgen mewn eiddo risg uwch.

Mewn rhai eiddo, rhaid i landlordiaid gynnal asesiad risg tân dan ddarpariaethau'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005. Mae awdurdodau tân ac achub yn gorfodi'r darpariaethau hyn.

Bydd rhagofalon tân yn amrywio'n helaeth rhwng TA unigol. Bydd y canllaw dilynol yn cynnig crynodeb o'r lefelau gwahanol o ganfyddiad sydd eu hangen. Argymhellir bod archwiliad llawn o'r eiddo yn cael ei gynnal i gadarnhau'r gofynion.

### FFLATIAU UN YSTAFELL

2 lawr - cyfleusterau coginio ym mhob ystafell wely/uned	3+ llawr - cyfleusterau coginio ym mhob ystafell wely/uned
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Llwybr diogel 30 munud gyda drysau tân FD30S (<u>gyda</u> stripiau chwyddedig <u>a</u> seliau mwg oer) ym mhob ystafell y mae modd byw ynddi.</li> <li>• Gwahaniaeth o 30 munud i waliau/nenfydau rhwng unedau llety ac mae'n rhaid i'r llwybr dianc fod wedi'i adeiladu'n gadarn ac yn draddodiadol.</li> <li>• Gwahaniaeth o 30 munud i'r seler/islawr (gan gynnwys drws) NEU dderbyn adeiladwaith traddodiadol cadarn mewn cyflwr da.</li> <li>• Blanced dân yn y gegin.</li> <li>• Gradd D - System LD2 gyda synwryddion mwg wedi'u cysylltu â'r llwybr dianc, y lolfa a'r islawr/seler. Synwryddion gwres wedi'u cysylltu â phob fflat un ystafell <u>a</u> synwryddion mwg</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Llwybr diogel 30 munud gyda drysau tân FD30S (<u>gyda</u> stripiau chwyddedig <u>a</u> seliau mwg oer) ym mhob ystafell y mae modd byw ynddi.</li> <li>• Gwahaniaeth o 30 munud i waliau/nenfydau rhwng unedau llety ac mae'n rhaid i'r llwybr dianc fod wedi'i adeiladu'n gadarn ac yn draddodiadol.</li> <li>• Gwahaniaeth o 30 munud i'r seler/islawr (gan gynnwys drws) NEU dderbyn adeiladwaith traddodiadol cadarn mewn cyflwr da.</li> <li>• Blanced dân yn y gegin.</li> <li>• Gradd A - System LD2 gyda synwryddion mwg wedi'u cysylltu â'r llwybr dianc, y lolfa a'r islawr/seler. Synwryddion gwres wedi'u cysylltu â phob fflat un ystafell <u>a</u> synwryddion</li> </ul>

Os oes angen unrhyw gyngor neu gymorth arnoch ar safonau trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth, cysylltwch â:

Ffôn: 01633 656656

E-bost: [hmo@newport.gov.uk](mailto:hmo@newport.gov.uk) Gwefan: [www.newport.gov.uk/hmo](http://www.newport.gov.uk/hmo)

**LLINELL FRYS ADRODD AM  
LANDLORD TWYLLODRUS**

Ilinell frys gyhoeddus dienw 24 awr  
01633 235233

<p>Gradd D nad ydynt wedi'u cysylltu â phob fflat un ystafell.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dim angen goleuadau neu arwyddion argyfwng, oni bai bod y llwybr dianc yn gymhleth.</li> </ul>	<p>mwg Gradd D nad ydynt wedi'u cysylltu â phob fflat un ystafell.</p> <p>I gynnwys panel rheoli, pwyntiau galw a lefel sain o leiaf 75dB ar ben bob gwely.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dim angen goleuadau neu arwyddion argyfwng, oni bai bod y llwybr dianc yn gymhleth.</li> </ul>
<p>Mae'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 yn <u>berthnasol</u> i'r mathau hyn o eiddo.</p>	

2 llawr - gyda chyfleusterau coginio a rennir	3+ llawr - gyda chyfleusterau coginio a rennir
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Llwybr diogel 30 munud gyda drysau tân FD30S (<u>gyda</u> stripiau chwyddedig <u>a</u> seliau mwg oer) ym mhob ystafell y mae modd byw ynddi.</li> <li>• Gwahaniaeth o 30 munud i waliau/nenfydau rhwng unedau llety ac mae'n rhaid i'r llwybr dianc fod wedi'i adeiladu'n gadarn ac yn draddodiadol.</li> <li>• Gwahaniaeth o 30 munud i'r seler/islawr (gan gynnwys drws) NEU dderbyn adeiladwaith traddodiadol cadarn mewn cyflwr da.</li> <li>• Blanced dân yn y gegin/ceginau.</li> <li>• Gradd D - System LD2 gyda synwryddion mwg wedi'u cysylltu â'r llwybr dianc, y lolfa a'r islawr/seler <u>a</u> phob fflat un ystafell. Synwryddion gwres wedi'u cysylltu â phob cegin a rennir.</li> <li>• Dim angen goleuadau neu arwyddion argyfwng, oni bai bod y llwybr dianc yn gymhleth.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Llwybr diogel 30 munud gyda drysau tân FD30S (<u>gyda</u> stripiau chwyddedig <u>a</u> seliau mwg oer) ym mhob ystafell y mae modd byw ynddi.</li> <li>• Gwahaniaeth o 30 munud i waliau/nenfydau rhwng unedau llety ac mae'n rhaid i'r llwybr dianc fod wedi'i adeiladu'n gadarn ac yn draddodiadol.</li> <li>• Gwahaniaeth o 30 munud i'r seler/islawr (gan gynnwys drws) NEU dderbyn adeiladwaith traddodiadol cadarn mewn cyflwr da.</li> <li>• Blanced dân yn y gegin/ceginau.</li> <li>• Gradd A - System LD2 gyda synwryddion mwg wedi'u cysylltu â'r llwybr dianc, y lolfa a'r islawr/seler <u>a</u> phob fflat un ystafell. Synwryddion gwres wedi'u cysylltu â phob cegin a rennir.</li> </ul> <p>I gynnwys panel rheoli, pwyntiau galw ac o leiaf 75dB ar ben bob gwely.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dim angen goleuadau neu arwyddion argyfwng, oni bai bod y llwybr dianc yn gymhleth.</li> </ul>
<p>Gallai'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 fod yn <u>berthnasol</u> i'r mathau hyn o eiddo.</p>	

### **TAI A RENNIR A LLETYWYR**

2 llawr	3+ llawr
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Drws tân FD30S 30 munud (<u>gyda</u> stripiau chwyddedig <u>a</u> seliau mwg oer) ar y drws olaf o'r gegin i'r llwybr dianc.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Llwybr diogel 30 munud gyda drysau tân FD30 (<u>gyda</u> stripiau chwyddedig <u>yn unig</u> a <u>dim</u> seliau</li> </ul>

Os oes angen unrhyw gyngor neu gymorth arnoch ar safonau trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth, cysylltwch â:

Ffôn: 01633 656656

E-bost: [hmo@newport.gov.uk](mailto:hmo@newport.gov.uk) Gwefan: [www.newport.gov.uk/hmo](http://www.newport.gov.uk/hmo)

**LLINELL FRYS ADRODD AM  
LANDLORD TWYLLODRUS**

llinell frys gyhoeddus dienw 24 awr  
01633 235233

- Drysau cadarn sy'n cau'n briodol i ystafelloedd yn arwain i'r llwybr dianc.
- Gwahaniaeth o 30 munud i waliau/nenfydau rhwng unedau llety ac mae'n rhaid i'r llwybr dianc fod wedi'i adeiladu'n gadarn ac yn draddodiadol.
- Gwahaniaeth o 30 munud i'r seler/islawr (gan gynnwys drws) NEU dderbyn adeiladwaith traddodiadol cadarn mewn cyflwr da.
- Blanced dân yn y gegin.
- Gradd D - System LD3 gyda synwryddion mwg wedi'u cysylltu â'r llwybr dianc, y lolfa a'r islawr/seler a synwryddion gwres wedi'u cysylltu â'r gegin/ceginau a rennir.
- Dim angen goleuadau neu arwyddion argyfwng, oni bai bod y llwybr dianc yn gymhleth.
- Os oes 2 lawr gydag islawr/atig y mae modd byw ynddo, bydd hyn yn cael ei ystyried yn eiddo 3 llawr a rennir. **Gweler 3+ llawr.**
- Os yw'r eiddo yn cael ei ystyried yn un â risg uchel, mae'n bosibl y bydd angen drysau tân 30 munud FD30 ychwanegol ar bob ystafell y mae modd byw ynddi. **Gweler 3+ llawr.**

- mwg oer) ym mhob ystafell y mae modd byw ynddi.
- Drws tân FD30S 30 munud (gyda stripiau chwyddedig a seliau mwg oer) ar y drws olaf o'r gegin i'r llwybr dianc.
- Gwahaniaeth o 30 munud i waliau/nenfydau rhwng unedau llety ac mae'n rhaid i'r llwybr dianc fod wedi'i adeiladu'n gadarn ac yn draddodiadol.
- Gwahaniaeth o 30 munud i'r seler/islawr (gan gynnwys drws) NEU dderbyn adeiladwaith traddodiadol cadarn mewn cyflwr da.
- Blanced dân yn y gegin.
- Gradd D - System LD3 gyda synwryddion mwg wedi'u cysylltu â'r llwybr dianc, y lolfa a'r islawr/seler a synwryddion gwres wedi'u cysylltu â'r gegin/ceginau a rennir.
- Dim angen goleuadau neu arwyddion argyfwng, oni bai bod y llwybr dianc yn gymhleth.

Nid yw'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 yn berthnasol i'r mathau hyn o eiddo.

#### **HOSTELI, TAI GWESTEION, GWELY A BRECWAST**

Bydd safonau'r eiddo hyn yn dibynnu ar natur y feddiannaeth a byddai'r safonau priodol yn dod o un o'r categorïau eraill. Cysylltwch â'r Tîm Tai Iechyd yr Amgylchedd i gael mwy o wybodaeth.

#### **CARTREFI GOFAL PRESWYL**

Bydd safonau'r eiddo hyn yn dibynnu ar natur y feddiannaeth a byddai'r safonau priodol yn dod o un o'r categorïau eraill. Cysylltwch â'r Tîm Tai Iechyd yr Amgylchedd i gael mwy o wybodaeth.

#### **FFLATIAU HUNAN-GYNHALIOL**

2 llawr	3+ llawr
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Llwybr dianc diogel cyffredin 30 munud gyda drysau tân FD30S (<u>gyda</u> stripiau chwyddedig a seliau mwg oer) h.y. drws mynediad y fflat.</li> <li>• Ym mhob fflat, dylid sicrhau drws tân FD30S 30 munud (<u>gyda</u> stripiau chwyddedig a seliau mwg oer) ar y drws olaf o'r gegin i'r llwybr dianc.</li> <li>• Ym mhob fflat, dylid sicrhau drysau cadarn wedi'u hadeiladu'n dda sy'n cau'n briodol.</li> <li>• Gwahaniaeth o 30 munud i waliau/nenfydau rhwng pob fflat, ym mhob fflat ac mae'n rhaid i'r llwybr dianc fod wedi'i adeiladu'n gadarn ac yn draddodiadol.</li> <li>• Gwahaniaeth o 30 munud i'r seler/islawr (gan gynnwys drws) NEU dderbyn adeiladwaith traddodiadol cadarn mewn cyflwr da.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Llwybr dianc diogel cyffredin 30 munud gyda drysau tân FD30S (<u>gyda</u> stripiau chwyddedig a seliau mwg oer) h.y. drws mynediad y fflat.</li> <li>• Ym mhob fflat, dylid sicrhau drws tân FD30S 30 munud (<u>gyda</u> stripiau chwyddedig a seliau mwg oer) ar y drws olaf o'r gegin i'r llwybr dianc.</li> <li>• Ym mhob fflat, dylid sicrhau drysau cadarn wedi'u hadeiladu'n dda sy'n cau'n briodol.</li> <li>• Gwahaniaeth o 30 munud i waliau/nenfydau rhwng pob fflat, ym mhob fflat ac mae'n rhaid i'r llwybr dianc fod wedi'i adeiladu'n gadarn ac yn draddodiadol.</li> <li>• Gwahaniaeth o 30 munud i'r seler/islawr (gan gynnwys drws) NEU dderbyn adeiladwaith traddodiadol cadarn mewn cyflwr da.</li> </ul>

Os oes angen unrhyw gyngor neu gymorth arnoch ar safonau trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth, cysylltwch â:

Ffôn: 01633 656656

E-bost: [hmo@newport.gov.uk](mailto:hmo@newport.gov.uk) Gwefan: [www.newport.gov.uk/hmo](http://www.newport.gov.uk/hmo)

**LLINELL FRYS ADRODD AM  
LANDLORD TWYLLODRUS**

llinell frys gyhoeddus dienw 24 awr  
01633 235233

<ul style="list-style-type: none"> <li>• Blanced dân yn y gegin.</li> <li>• Gradd D - System LD2 gyda synwryddion mwg wedi'u cysylltu â'r llwybr dianc cyffredin. Synwryddion gwres wedi'u cysylltu yng nghegin a neuadd groesawu pob fflat a synwryddion mwg Gradd D nad ydynt wedi'u cysylltu yn neuadd groesawu pob fflat.</li> <li>• Dim angen goleuadau neu arwyddion argyfwng, oni bai bod y llwybr dianc yn gymhleth.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Blanced dân yn y gegin.</li> <li>• System LD2 Gradd A gyda synwryddion mwg wedi'u cysylltu â'r llwybr dianc cyffredin. Synwryddion gwres wedi'u cysylltu yng nghegin a neuadd groesawu pob fflat a synwryddion mwg Gradd D nad ydynt wedi'u cysylltu yn neuadd groesawu pob fflat.</li> </ul> <p>I gynnwys panel rheoli, pwyntiau galw ac o leiaf 75dB ar ben bob gwely.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dim angen goleuadau neu arwyddion argyfwng, oni bai bod y llwybr dianc yn gymhleth.</li> </ul>
<p>Mae'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 yn <u>berthnasol</u> i'r mathau hyn o eiddo. Caiff hyn ei reoleiddio gan <a href="#">Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru</a>.</p>	

## **FFLATIAU MEWN TAI AMLFEDDIANNAETH**

Bydd safonau'r fflatiau hyn yn dibynnu ar natur y feddiannaeth a byddai'r safonau priodol yn dod o un o'r categorïau eraill. Cysylltwch â Thîm Tai Iechyd yr Amgylchedd i gael mwy o wybodaeth.

### **Blancedi Tân**

Rhaid rhoi blancedi tân ym mhob cegin. Dylent gydymffurfio â BS 1869: fersiwn bresennol neu gyfwerth a bod yn ysgafn gan allu ymdrin â thanau bychan a bod ar y wal oddeutu 1.5m o uchder ac yn agosach i allanfa'r ystafell na'r cyfleuster coginio.

### **Goleuadau Argyfwng**

Mae'n bosibl y bydd angen goleuadau argyfwng os nad yw'r llwybr dianc a amddiffynnir yn meddu ar oleuadau cefndirol, un ai'n naturiol neu wedi'i fenthg o oleuadau stryd i sicrhau symudiad diogel at y drws/drysau terfynol. Os darperir goleuadau argyfwng mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â BS5266-1: fersiwn bresennol.

## **Rhagofalon Tân Eraill**

Ni ddylid cael unrhyw rwystrau na deunyddiau hylosgadwy ar lwybrau dianc.

Rhaid i'r landlord gynnig cyfarwyddiadau diogelwch tân digonol i breswylwyr ac unrhyw gyflogeion. Rhaid iddynt gael eu dwyn i sylw bob tenant a rhaid iddynt fod ar gael i'w harchwilio yn yr eiddo.

Rhaid i unrhyw Oergell/Rhewgell mewn ystafelloedd gwely mewn TA 'tŷ a rennir' gael prawf dyfeisiau cludadwy blynyddol i sicrhau bod yr offer trydanol yn ddiogel i'w defnyddio a ddim yn risg tân.

Rhaid cadw llyfr log rhagofalon tân i gofnodi'r archwiliadau cyfnodol a'r gwaith o gynnal a chadw'r system larymau, offer diffodd tân, ac os yw'n berthnasol, goleuadau argyfwng. Dylai gael ei gynnal a'i gadw a bod ar gael i'w archwilio yn yr eiddo. Os nad oes tenantiaid yn yr eiddo am 4 wythnos neu fwy, rhaid i'r systemau a'r offer gael eu profi cyn i denantiaid feddiannu'r eiddo, a bob tro cyn ail-osod y llety.

Bydd unrhyw gynigion i gynnig dulliau amddiffyn eraill mewn achos tân (e.e. systemau taenu dŵr) yn cael eu hystyried ar y cyd â'r Gwasanaeth Tân.

## **Gwahanu Tân**

Os oes angen unrhyw gyngor neu gymorth arnoch ar safonau trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth, cysylltwch â:

Ffôn: 01633 656656

E-bost: [hmo@newport.gov.uk](mailto:hmo@newport.gov.uk) Gwefan: [www.newport.gov.uk/hmo](http://www.newport.gov.uk/hmo)

**LLINELL FRYS ADRODD AM  
LANDLORD TWYLLODRUS**

llinell frys gyhoeddus dienw 24 awr  
01633 235233



Rhaid i bob wal sy'n rhan o'r llwybr dianc diogel atal tân am 30 munud. Rhaid i waliau lath a phlaster fod yn gadarn a bod mewn cyflwr da (rhaid i'r plaster gael allwedd dda i'r lath). Dylid gwaredu teils polystyren o'r toeau. Os yw uwchraddio'n hanfodol, bydd gosod bwrdd plaster 12.5mm a gorchudd sgimio 3mm i ochr y risg yn atal y tân mewn modd digonol. Gellid rhoi bwrdd dros waliau gan ddefnyddio hoelion hir.

Sicrhewch fod mesuryddion nwy a thrydan yn y llwybr dianc (os oes rhai) yn atal tân am 30 munud a bod modd eu defnyddio. Eithriad i hyn yw pob tŷ a rennir heb fod yn fwy na dau lawr oni bai bod pellteroedd teithio yn hir, neu fod ffactorau risg uchel eraill neu os yw wedi'i nodi yn yr Asesiad Risg Tân (cyfeiriwch at LACORS; canllawiau Diogelwch Tân Tai: [www.lacors.gov.uk](http://www.lacors.gov.uk))

Rhaid i nenfwd gwrth-dân wahanu unrhyw lety rhag y llawr uchod. Rhaid i nenfydau sydd wedi'u hadeiladu â lath a phlaster fod yn gadarn a bod mewn cyflwr da (rhaid i'r plaster gael allwedd dda i'r lath). Rhaid i'r ataliad fod o leiaf awr ar gyfer gwahanu rhwng is-lawr y mae rhywun yn byw ynddo a'r llawr uchod. Ar nenfydau heb eu byrddio, gellid cyflawni hyn drwy roi dwy haen o fwrdd plaster 12.5mm, gyda chymalau'n gorgyffwrdd a chôt sgim 3mm.

Os oes llety cysgu mewn is-lawr, mae'n rhaid sicrhau dull dianc amgen drwy ddrws neu ffenestr i'r lefel daear allanol yn ogystal â'r llwybr dianc o'r tŷ.

Os yw llety preswyl uwchben eiddo masnachol, yn gyffredinol dylid sicrhau 60 munud o wahaniaeth rhwng y ddau. Mewn eiddo masnachol risg llai, gellid lleihau hyn i 30 munud. Rhaid i'r system canfod tân a'r system larymau fod yn gysylltiedig â rhannau cyffredin y llety preswyl a'r eiddo masnachol. Os yw uwchraddio i gynnig cyfleuster atal tân o 60 munud yn hanfodol, adeiladwch nenfwd gwrth-dân 60 munud gyda dwy haen 12.5mm o fwrdd plaster (Gyproc Fireline) gyda hoelion wedi'u sincio â'r dist. Dylid llenwi cymalau ymylol a bylchau a rhoi tâp drostynt neu gyflawni gorffeniad plaster sgim.

Os oes ystafell fewnol (ystafell lle byddai'r llwybr dianc drwy ystafell arall) yn ystafell wely ar y llawr daear neu'r llawr cyntaf, rhaid cynnig ffenestr sy'n agor heb unrhyw rwystrau, gydag arwynebedd o leiaf 0.33m<sup>2</sup> heb ddimensiwn yn llai na 450mm a gydag uchder sil rhwng 800 a 1100mm o'r llawr. Rhaid i allwedd ychwanegol ar gyfer y ddyfais cloi fod ar gael yn yr ystafell yn barhaol i'w defnyddio mewn sefyllfa frys. Ar lorïau 2 neu uwch, nid yw ffenestri dianc yn dderbyniol a bydd angen creu llwybr amgen. Gellid cael cyngor pellach gan Dîm Tai Iechyd yr Amgylchedd.

Dylid gosod drysau tân a'u cynnal yn unol â BS 476 rhannau 22 a 23 a BS 8214: fersiwn ddiweddaraf. Rhaid i ddrysau tân fod wedi'u gosod ar golfachau pres neu ddur. Os oes angen seliau mwg, rhaid gosod stripiau chwyddedig a seliau mwg oer ar y drws tân neu ar ffrâm y drws. Rhaid ffitio dyfais cau sy'n addas ar gyfer maint a phwysau'r drws, rhaid i'r dyfais cau gael ei haddasu i sicrhau bod y drws yn cau'n llyfn ac yn dawel i gefn ffrâm y drws. Rhaid i bob drws ffitio'n gywir i'r ffrâm. Rhaid i unrhyw glo neu glicied fod wedi'i orchuddio mewn deunydd chwyddedig.

Os yw paneli gwydr yn cael eu ffitio i mewn i neu uwch ben drysau neu waliau, rhaid iddynt fod yn gallu cynnig yr un cyfleuster gwrth-dân â'r deunydd cyfagos.

Rhaid i gloeau ar ddrysau ystafelloedd ac unrhyw ddrysau sy'n arwain allan o'r uned lety i'r llwybr dianc diogel a'r drws/drysau terfynol allu cael eu hagor o'r tu mewn heb ddefnyddio allwedd neu 'glo troi â bawd'. Ni chaniateir mathau cau 'hasp and staple'/clo clap ar ddrysau ystafelloedd gwely.

Ni ddylid defnyddio unrhyw gwpwrdd yn y llwybr dianc ar gyfer storio deunyddiau fflamadwy oni bai eu bod nhw'n gwrth-dân, yn cael eu cadw dan glo a bod larymau mwg/dyfeisiau canfod mwg ynddyn nhw. Eithriad i hyn yw pob tŷ a rennir sydd heb fwy na 2 lawr. Mewn achosion o'r fath dylid rheoli cypyrddau yn addas fel nad oes risg ychwanegol.

Os oes angen unrhyw gyngor neu gymorth arnoch ar safonau trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth, cysylltwch â:

Ffôn: 01633 656656

E-bost: [hmo@newport.gov.uk](mailto:hmo@newport.gov.uk) Gwefan: [www.newport.gov.uk/hmo](http://www.newport.gov.uk/hmo)

**LLINELL FRYS ADRODD AM  
LANDLORD TWYLLODRUS**

llinell frys gyhoeddus dienw 24 awr  
01633 235233

## **Rheoliadau Dodrefn ac Addurniadau**

Rhaid i'r holl ddodrefn o fewn gosodiadau'n dechrau ar ôl 1 Ionawr 1997 fodloni gofynion atal tân. Rhaid i bob darn o ddodrefn newydd fod â label parhaol yn nodi ei fod yn cydymffurfio â'r safonau hyn.

## **Awyru yn yr ystafelloedd gwely**

Os oes dim ond un drws allanol o fewn ystafell wely, bydd angen rhoi un o'r opsiynau isod ar waith:

- Newid panel o fewn y drws i fod yn ffenestr y mae modd ei hagor.
- Newid y drws i fod yn un tiltio a throï.
- Gosod ffenestr y mae modd ei hagor. Bydd angen i'r ffenestr gael ei ffitio gan gontractwr sydd wedi cofrestru â FENSA neu fel arall dylid ceisio caniatâd Rheoliadau Adeiladu.
- Gosod cyfyngwr diogelwch, i atal y drws rhag cael ei agor fwy na 10cm. Ni fydd modd agor y cyfyngwr o'r tu allan a bydd yn dod ag aer i mewn i'r ystafell wely.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am gynnig awyru yn yr ystafelloedd gwely, cysylltwch â Thîm Tai Iechyd yr Amgylchedd i gael gwybodaeth bellach.

## **Amodau Cyffredinol a Threfniadau Rheoli**

Os yn gweithredu TA, bydd gan ddeiliad trwydded/rheolwr/asiant sy'n rheoli amodau penodol ac ymrwymïadau rheoli y mae angen iddo gydymffurfio â nhw.

Rhaid i bob eiddo fod mewn cyflwr da a chyflwr diogel a glân.

Cyn cyflwyno trwydded (cais newydd/cychwynnol neu adnewyddiad) bydd archwiliad llawn o'r eiddo yn cael ei gynnal. Bydd yr eiddo hefyd yn destun archwiliadau pellach yn seiliedig ar risg gydol cyfnod y drwydded. Bydd angen gallu cael mynediad i bob ystafell a dylid rhoi rhybudd rhesymol i denantiaid.

Rhaid cydymffurfio â'r rheoliadau rheoli canlynol bob tro.

- [Rheoliadau Trwyddedu a Rheoli Tai Amlfeddiannaeth \(Darpariaethau Ychwanegol\) \(Cymru\) 2007](#) - Mathau penodol o TA sy'n fflatiau wedi'u trosi
- [Rheoliadau Rheoli Tai Amlfeddiannaeth \(Cymru\) 2006](#) - pob math arall o TA

## **Archwiliadau**

Bydd archwiliadau'n cael eu cynnal yn ystod cyfnod y drwydded a byddant yn cynnwys yr hyn a ganlyn:

**Cydymffurfio ag Amodau Trwyddedu - gweler Atodiad 1**

Cydymffurfio â'r [Rheoliadau Rheoli](#)

Cydymffurfio â [Chod Ymarfer Rhentu Doeth Cymru](#)

Os oes angen unrhyw gyngor neu gymorth arnoch ar safonau trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth, cysylltwch â:

Ffôn: 01633 656656

E-bost: [hmo@newport.gov.uk](mailto:hmo@newport.gov.uk) Gwefan: [www.newport.gov.uk/hmo](http://www.newport.gov.uk/hmo)

**LLINELL FRYS ADRODD AM  
LANDLORD TWYLLODRUS**

Ilinell frys gyhoeddus dienw 24 awr  
01633 235233

## Asesiad dan System Mesur Iechyd a Diogelwch Tai (SMIDT)

Caiff y SMIDT ei defnyddio i asesu risgiau posibl i iechyd a diogelwch o ddiffygion a nodwyd. Ystyrir 29 o beryglon wrth archwilio eiddo fel y dangosir yn y tabl isod.

System Mesur Iechyd a Diogelwch Tai (SMIDT) - 29 o beryglon	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Lleithder a thyfiant llwydni</li> <li>• Oerfel gormodol</li> <li>• Gwres gormodol</li> <li>• Asbestos</li> <li>• Bywleiddiad</li> <li>• Carbon monocsid a chynhyrchion hylogi tanwydd</li> <li>• Plwm</li> <li>• Ymbelydredd</li> <li>• Tanwydd nwy anhylog</li> <li>• Cyfansoddion Organig Anwedol</li> <li>• Gorlenwi a Gofod</li> <li>• Tresbaswyr yn Cael Mynediad</li> <li>• Golau</li> <li>• Sŵn</li> <li>• Hylendid Domestig, Plâu, Sbwriel</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Diogelwch Bwyd</li> <li>• Hylendid Personol, Glanweithdra a Draeniau</li> <li>• Cyflenwad Dŵr</li> <li>• Cwymo'n gysylltiedig â baddonau ac ati.</li> <li>• Cwymo'n gysylltiedig ag arwynebau gwastad ac ati.</li> <li>• Cwymo ar risiau ac ati.</li> <li>• Cwymo rhwng lefelau</li> <li>• Peryglon Trydanol</li> <li>• Tân</li> <li>• Fflamau, arwynebau poeth ac ati.</li> <li>• Gwrthdaro a Maglu</li> <li>• Ffrwydradau</li> <li>• Lleoliad amwynderau ac ati a'u gallu i weithredu.</li> <li>• Strwythur ac elfennau'n cwmpo</li> </ul>

O ganlyniad i'r asesiad SMIDT, mae'n bosibl y bydd angen bodloni gofynion ychwanegol. Bydd unrhyw waith yr ystyrir ei fod yn hanfodol o ganlyniad i archwiliad yn gorfod cael ei wneud o fewn cyfnod amser penodol, neu fel arall mae'n bosibl y bydd Cyngor Dinas Casnewydd yn ei ystyried yn hanfodol i gyflwyno hysbysiad cyfreithiol a/neu roi prosesau cyfreithiol ar waith.

Mae'r Polisi Gorfodi Amddiffyn y Cyhoedd ar gael ar y wefan:

<http://www.newport.gov.uk/documents/Policies/Public-Protection-Enforcement-Policy-November-2013.pdf>

## Hysbysiadau Cyfreithiol

Mae Adran 49 Deddf Tai 2004 yn galluogi awdurdodau lleol i adfer newidiadau rhesymol drwy gyflwyno Rhybudd Gwella [Adranau 11 ac 12], Gorchymyn Gwahardd [Adranau 20 a 21], cymryd Camau Adfer Brys [Adran 40] a chyflwyno Gorchymyn Gwahardd Brys [Adran 43].

Mae angen talu am wasanaethau hysbysiadau Deddf Tai 2004 ffurfiol ac os yw'r Cyngor wedi achosi unrhyw dreuliau ychwanegol, mae'n bosibl y byddai'r rhain yn cael eu hychwanegu i'r pris.

Os oes angen unrhyw gyngor neu gymorth arnoch ar safonau trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth, cysylltwch â:

Ffôn: 01633 656656

E-bost: [hmo@newport.gov.uk](mailto:hmo@newport.gov.uk) Gwefan: [www.newport.gov.uk/hmo](http://www.newport.gov.uk/hmo)

**LLINELL FRYS ADRODD AM  
LANDLORD TWYLLODRUS**


llinell frys gyhoeddus dienw 24 awr  
01633 235233

## Rhentu Doeth Cymru

Rhaid i landlordiaid ac asiantau sydd â thrwydded Rhentu Doeth Cymru dan Ran 1 Deddf Tai (Cymru) 2014 gydymffurfio â'r **Cod Ymddygiad**. Mae'r Cod hwn yn cynnwys dwy elfen. Yn gyntaf, mae'n nodi'n union beth sy'n rhaid i landlordiaid ei wneud i gadw at amodau'r drwydded. Yr ail yw gwybodaeth am beth ellid ei wneud i godi safonau'n uwch na lefel ofynnol y gyfraith. Gelwir hyn yn "Arfer Gorau".

I weld hyn, ewch i:

<https://www.rhentudoeth.llyw.cymru/cym/resource-library/>



## Atodiad I - Amodau Trwyddedau TA

### DEDDF TAI 2004

#### GOFYNIION AC AMODAU TRWYDDED

Bydd unrhyw gyfeiriad at 'y Cyngor' yn golygu Cyngor Dinas Casnewydd sy'n ymwneud â'r adran: Tai, Iechyd yr Amgylchedd, Cyngor Dinas Casnewydd, Canolfan Ddinesig, Casnewydd NP20 4UR, Ffôn: 01633 656656 neu e-bost: [hmo@newport.gov.uk](mailto:hmo@newport.gov.uk)

#### **PWYSIG:**

**DYLECH DDARLLEN Y DDOGFFEN HON YN OFALUS GAN EI BOD YN CYNNWYS YR AMODAU SYDD YNGHLWM Â'CH TRWYDDED. RHAID CYDYMFFURFIO Â'R AMODAU HYN A ALL GYNNWYS GOFYNIAD I GWBLHAU GWAITH AR YR EIDDO O FEWN AMSER PENODOL.**

**BYDD METHU Â CHYDYMFFURFIO AG UNRHYW AMOD SYDD YNGHLWM WRTH Y DRWYDDED YN DROSEDD A GELLIR CYMRYD ACHOS CYFREITHIOL YN ERBYN DEILIAD Y DRWYDDED GYDA DIRWY ANGHYFYNGEDIG.**

1. Ni fydd nifer y bobl sy'n byw yn yr eiddo yn fwy na'r uchafswm a nodir ar y drwydded.
2. Ni fydd defnydd a lefel meddiannaeth pob ystafell yn cael ei newid heb gymeradwyaeth y Cyngor.

Os oes angen unrhyw gyngor neu gymorth arnoch ar safonau trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth, cysylltwch â:

Ffôn: 01633 656656

E-bost: [hmo@newport.gov.uk](mailto:hmo@newport.gov.uk) Gwefan: [www.newport.gov.uk/hmo](http://www.newport.gov.uk/hmo)

**LLINELL FRYS ADRODD AM  
LANDLORD TWYLLODRUS**

llinell frys gyhoeddus dienw 24 awr  
01633 235233

3. Mae'n rhaid rhoi gwybod i'r awdurdod lleol cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosib am unrhyw newid materol mewn amgylchiadau o ran deiliad y drwydded, y rheolwr neu unrhyw un arall ynghlwm wrth yr eiddo, yr eiddo ei hun neu'r gwaith o'i reoli o fewn saith diwrnod gwaith o'r newid. Mae hyn yn cynnwys newid manylion cyswllt.
4. Ni fydd unrhyw addasiad all effeithio ar amodau'r drwydded yn cael eu gwneud heb roi gwybod i'r Cyngor ac ymgynghori ag ef ymlaen llaw.
5. Bydd deiliad y drwydded yn rhoi datganiad ysgrifenedig sy'n nodi'r amodau i bob meddiannwr. Fel arfer bodlonir y gofyniad hwn drwy roi cytundeb tenantiaeth.
6. Bydd deiliad y drwydded ar ddechrau meddiannaeth yn rhoi i bob meddiannwr newydd:
  - a) Gwybodaeth ysgrifenedig am drefniadau ailgylchu a storio, casglu a gwaredu gwastraff. Ewch i adran gwastraff ac ailgylchu [www.newport.gov.uk](http://www.newport.gov.uk) i gael mwy o gyngor.
  - b) Gwybodaeth ysgrifenedig am weithdrefnau dianc yr adeilad mewn achos tân, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ddeall y larwm, pwysigrwydd drysau tân a diogelu'r llwybr dianc, cadw'r llwybr dianc yn rhydd rhag unrhyw rwystrau a defnydd o'r offer ymladd tân sydd ar gael. Bydd deiliad y drwydded yn sicrhau bod yr holl feddiannwyr yn llwyr ymwybodol o'r gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â larymau tân ffug.
  - c) Manylion ysgrifenedig o'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer ymdrin â gwaith trwsio neu waith angenrheidiol i'r eiddo neu unrhyw gyfleusterau, offer neu beiriannau a roddwyd gan y landlord. Dylai hyn gynnwys rhifau ffôn a manylion unrhyw drefniadau a wnaed gyda rheolwyr, masnachwyr neu ddarparwyr eraill ar gyfer cyflawni'r gwasanaethau hyn.
  - d) Gwybodaeth ysgrifenedig am safonau ymddygiad a ddisgwyllir a goblygiadau posibl ymddygiad gwrthgymdeithasol gan y meddiannwyr a/neu unrhyw ymwelwyr y gall fod ganddynt.
7. Bydd deiliad y drwydded yn sicrhau bod pob meddiannwr, ar ôl derbyn y wybodaeth uchod yn llofnodi'r datganiad Dealltwriaeth fel y nodir yn Atodiad A y drwydded hon. Rhaid cadw cofnod o'r Datganiad wedi'i lofnodi mewn llyfr log a'i gyflwyno i'r Cyngor o fewn saith diwrnod o gais o'r fath.
8. Os yw deiliad y drwydded yn byw dros 50 milltir o Ddinas Casnewydd, yna rhaid penodi rheolwr cymwys sy'n byw o fewn 50 milltir i ardal yr Awdurdod.
9. Rhaid bodloni pob cais rhesymol gan yr awdurdod lleol i gael mynediad i'r eiddo, a bydd deiliad y drwydded neu'r rheolwr yn sicrhau mynediad o'r fath.

### **Cyflwr yr Eiddo**

10. Bydd deiliad y drwydded yn sicrhau yr ymgwymerir â phob mater o ran atgyweirio ffabrig yr adeilad, cyfarpar neu ddodrefn y rhoddwyd gwybod amdano iddo gan y tenantiaid, swyddogion y Cyngor neu ymwelwyr â'r eiddo o fewn cyfnod amser sy'n briodol i'w brys.
11. Bydd deiliad y drwydded yn cynnal ymddangosiad allanol yr eiddo i safon dda gan gynnwys gerddi, waliau ffiniol a ffensys.
12. Ni fydd gwastraff, sbwriel nac unrhyw beth arall yn cronni yn unrhyw un o'r gerddi, yr ierdydd na'r cyrtiau blaen. Cânt eu cadw mewn cyflwr glân a thaclus.
13. Bydd deiliad y drwydded yn sicrhau bod yr eiddo yn cydymffurfio â safonau gofod mabwysiedig y Cyngor.

Os oes angen unrhyw gyngor neu gymorth arnoch ar safonau trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth, cysylltwch â:

Ffôn: 01633 656656

E-bost: [hmo@newport.gov.uk](mailto:hmo@newport.gov.uk) Gwefan: [www.newport.gov.uk/hmo](http://www.newport.gov.uk/hmo)

**LLINELL FRYS ADRODD AM  
LANDLORD TWYLLODRUS**

llinell frys gyhoeddus dienw 24 awr  
01633 235233

14. Os cyflenwir nwy i'r eiddo, bydd deiliad y drwydded yn cynhyrchu tystysgrif diogelwch nwy i'r Cyngor bob blwyddyn ar gyfer yr eiddo, gyda dyddiad o fewn y 12 mis diwethaf. Bydd hyn gan gcontractwr wedi cofrestru ar y Gofrestr Diogelwch Nwy ar gyfer pob gosodiad, cyfarpar a fflw nwy a ddarperir gan ddeiliad y drwydded.
15. Bydd deiliad y drwydded yn cyflwyno i'r Cyngor, yn ôl y galw, dystysgrifau archwiliad a phrawf diogelwch trydanol cyfredol a boddhaol ar gyfer pob peth trydanol sydd wedi'i osod yn yr eiddo, gan gynnwys unrhyw gyflenwadau gan landlordiaid. Dylai tystysgrifau o'r fath gael eu rhoi gan gcontractwyr sy'n aelodau o gymdeithas neu gyngor masnach priodol gan sicrhau eu cymhwysedd (neu a all fel arall ddangos eu cymhwysedd i'r Cyngor e.e. drwy gofrestru at ddibenion Rhan P Rheoliadau Adeiladau 2010).
16. Bydd deiliad y drwydded yn sicrhau bod adroddiad cyflwr gosodiadau trydanol yr eiddo yn cael eu hadnewyddu bob pum mlynedd o leiaf. Bydd yr holl waith cod 1 a 2 yn adran Namau ac Awgrymiadau'r adroddiad trydanol yn cael eu cyflawni a'u hadfer i safon foddhaol. Ar gais, bydd deiliad y drwydded yn rhoi'r adroddiad i'r Cyngor.
17. Bydd deiliad y drwydded yn cadw'r holl gyfarpar trydanol a roddir iddo yn y tŷ mewn cyflwr diogel. Bydd tystysgrif prawf dyfeisiau cludadwy blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor fel tystiolaeth.
18. Ni chaiff gosodiadau trydanol sy'n rhoi pŵer i systemau larymau tân neu oleuadau argyfwng (os yw'n briodol) eu cyflenwi drwy fesuryddion tocyn nac unrhyw gyflenwad mesuredig y meddiannydd.
19. Bydd deiliad y drwydded yn sicrhau bod cyflenwad trydanol parhaus ac nad oes unrhyw rwystr y byddai'n effeithio ar weithrediad y system larymau tân a'r system goleuadau argyfwng (os yw'n berthnasol) i'r holl eiddo.
20. Bydd deiliad y drwydded ond yn cyflenwi dodrefn i'r eiddo sy'n cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Dodrefn ac Addurniadau (Diogelwch Tân) 1998. Bydd yr holl ddodrefn yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Mae'r gofyniad hwn hefyd yn berthnasol i orchuddion a llenwadau clustogau a roddir. Rhaid rhoi dogfennaeth yn ategu cydymffurfiaeth y dodrefn gyda'r gofynion hyn, neu ddatganiad wedi'i lofnodi'n nodi hyn, mewn llyfr log. Bydd deiliad y drwydded yn rhoi datganiad i'r Cyngor i'r perwyl hwn yn ôl y galw.
21. Bydd deiliad y drwydded yn sicrhau bod modd dianc priodol; cyfleusterau rhagofalon tân ac offer yn yr eiddo yn unol â safon fabwysiedig y Cyngor. Bydd deiliad y drwydded yn sicrhau bod unrhyw waith a restrir yn Atodlen 1 y drwydded hon yn cael ei gynnal a'i gwblhau o fewn y cyfnod amser penodol mewn perthynas â'r gofyniad hwn. Bydd deiliad y drwydded yn rhoi datganiad i'r Cyngor, ar alw, ynghylch dyluniad y system, y gwaith o'i gosod a'i chyflwr.
22. Bydd deiliad y drwydded yn sicrhau bod yr holl larymau tân, goleuadau brys a diffoddwyr tan yn yr eiddo yn cael eu gwasanaethu a'u profi bob blwyddyn a'u cynnal yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a/neu safonau Prydeinig neu Ryngwladol perthnasol. Bydd unrhyw broblemau'n cael eu trwsio'n syth. Bydd unrhyw dystysgrifau profion ac unrhyw waith adfer yn cael ei wneud gan gcontractwyr sy'n aelodau o gymdeithas masnach neu gyngor priodol sy'n sicrhau eu cymhwysedd neu sy'n gallu dangos eu cymhwysedd i'r Cyngor. Bydd yr holl ddogfennaeth berthnasol o ran gwasanaethu blynyddol yr offer hwn yn cael ei chadw mewn llyfr log. Rhaid i'r cofnod hwn fod ar gael i'r Cyngor ei archwilio ar gais.
23. Bydd deiliad y drwydded yn sicrhau bod pob tenant yn cael eglurhad ar ddechrau'r feddiannaeth o ran rhagofalon tan a'r cyfleusterau yn y tŷ. Dylai hyn gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i ddeall y larwm, pwysigrwydd drysau tân a diogelu'r llwybr dianc, cadw'r llwybr dianc yn rhydd rhag

Os oes angen unrhyw gyngor neu gymorth arnoch ar safonau trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth, cysylltwch â:

Ffôn: 01633 656656

E-bost: [hmo@newport.gov.uk](mailto:hmo@newport.gov.uk) Gwefan: [www.newport.gov.uk/hmo](http://www.newport.gov.uk/hmo)

**LLINELL FRYS ADRODD AM  
LANDLORD TWYLLODRUS**

llinell frys gyhoeddus dienw 24 awr  
01633 235233

unrhyw rwystrau a defnydd o'r offer ymladd tân a ddarperir. Ar ôl cael cyfarwyddiadau o'r fath, rhaid i bob tenant lofnodi'r Datganiad Dealltwriaeth sydd yn Atodiad A y drwydded. Rhaid cadw cofnod o'r Datganiad wedi'i lofnodi mewn llyfr log a'i gyflwyno i'r Cyngor o fewn saith diwrnod o gais o'r fath.

24. Bydd deiliad y drwydded yn sicrhau bod y Cyngor yn cael gwybod am ddigwyddiad tân yn yr eiddo o fewn 24 awr i ddeiliad y drwydded neu ei gynrychiolydd enwebedig gael ei hysbysu am y tân.
25. Bydd deiliad y drwydded yn sicrhau bod trefniadau ar waith fel bod person priodol, sydd â chysylltiad â'r eiddo, ar gael i fynd i'r eiddo yn achos larwm ffug er mwyn gwneud yn siŵr bod y system larymau tân yn cael ei hailosod.
26. Rhaid i'r amwynderau yn yr eiddo fodloni'r safonau gofynnol penodedig, gan ystyried nifer y meddianwyr y mae'r drwydded ar eu cyfer. Bydd deiliad y drwydded yn sicrhau bod unrhyw waith a restrir yn Atodlen 1 y drwydded hon yn cael ei gynnal a'i gwblhau o fewn y cyfnod amser penodol.
27. Os dymuna deiliad y drwydded gynyddu nifer y meddianwyr a ganiateir, bydd rhaid iddo wneud cais i amrywio amodau'r drwydded. Efallai na chaniateir i feddianwyr ychwanegol fyw yn yr eiddo hyd oni chymeradwyir yn ffurfiol yr amrywiad i amodau'r drwydded a hyd oni ddarperir y cyfleusterau angenrheidiol.

### **Gwastraff**

28. Cyfrifoldeb deiliad y drwydded yw sicrhau bod cynwysyddion addas a digonol ar gyfer gwastraff cartref cyffredinol a gwastraff ailgylchadwy yn cael eu rhoi ar ddechrau pob tenantiaeth ar gyfer gwastraff yn disgwyl i gael ei gasglu, i atal anifeiliaid neu adar neu ddefnyddwyr anawdurdodedig.
29. Cyfrifoldeb deiliad y drwydded yw sicrhau bod ardal storio addas a digonol ar gyfer cynwysyddion gwastraff ac ailgylchu. Rhaid i bob cynhwysydd a bin gwastraff ac ailgylchu gael ei storio o fewn cwrtill y TA, neu os nad yw hyn yn bosibl, caiff ei storio mewn ardal storio dan glo neu dylid ceisio cymeradwyaeth Tîm Rheoli Gwastraff CDC a Thai lechyd yr Amgylchedd ar y rhif ffôn: 01633 656656, e-bost: [city.services@newport.gov.uk](mailto:city.services@newport.gov.uk) a [hmo@newport.gov.uk](mailto:hmo@newport.gov.uk).
30. Gall deiliad y drwydded wneud cais am gynwysyddion domestig, neu gael atebion i ymholiadau am gyfleusterau storio, ar-lein yn <https://www.newport.gov.uk/cy/Waste-Recycling/Waste-Recycling.aspx> neu drwy'r Gwasanaethau Cwsmeriaid ar 01633 656656. Gall fod angen talu am gynwysyddion neu gyfleusterau storio o'r fath.
31. Gall deiliad y drwydded wneud cais am gynwysyddion ailgylchu neu gael atebion i ymholiadau am gyfleusterau storio ar-lein yn <https://www.newport.gov.uk/cy/Waste-Recycling/Waste-Recycling.aspx> neu drwy gysylltu â Wastesavers, Esperanto Way, Llysury, Casnewydd NP19 0RD rhif ffôn: 01633 281 281 e-bost: [reception@wastesavers.co.uk](mailto:reception@wastesavers.co.uk). Gall fod angen talu am gynwysyddion neu gyfleusterau storio o'r fath.
32. Bydd casgliadau gwastraff yn cael eu cynnal yn ôl y [Canllaw Casgliadau Gwastraff Cartref ac Ailgylchu](#).

Os oes angen unrhyw gyngor neu gymorth arnoch ar safonau trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth, cysylltwch â:

Ffôn: 01633 656656

E-bost: [hmo@newport.gov.uk](mailto:hmo@newport.gov.uk) Gwefan: [www.newport.gov.uk/hmo](http://www.newport.gov.uk/hmo)

**LLINELL FRYS ADRODD AM  
LANDLORD TWYLLODRUS**

llinell frys gyhoeddus dienw 24 awr  
01633 235233

33. Nodir manylion hawliadau o ran meintiau biniau gwastraff isod ac mae gan ddeiliad y drwydded hawl i'r canlynol:

<b>GWASTRAFF GWEDDILLIOL</b>		
Meddianwyr TA	Hawliad biniau	Tra'n aros am fin
Hyd at 5 o bobl	Bin 120 litr	2 sach
6-8 o bobl	Bin 180 litr	3 sach
9 neu fwy	Bin 240 litr	4 sach

Yn achos TA sydd â mwy na phedwar o anheddau (mae hyn yn berthnasol i fflatiau os oes mwy na 4 annedd, neu lety a rennir os yw mwy na 5 o bobl ar wahân yn talu'r dreth gyngor), bydd angen archwiliad safle ar y TA i asesu'r ardal storio ac i bennu lefel y cynwysyddion sydd eu hangen. Cyfrifoldeb deiliad y drwydded ar ddechrau'r tenantiaethau yw trefnu archwiliad safle gyda'r Tîm Rheoli Gwastraff. Gallwch drefnu hyn gyda Chanolfan Gyswilt Cyngor Dinas Casnewydd ar y rhif ffôn: 01633 656656.

Ar gyfer casgliadau ailgylchu mae'r hawliad yn dibynnu ar nifer yr anheddau ac fe'i nodir isod:

<b>AILGYLCHU</b>			
Eiddo unigol*		Fflatiau	
Waeth beth yw nifer y preswylwyr	1 bocs glas ar gyfer papur, eitemau trydanol bach, tecstilau	Bocsys ymyl y ffordd (gweler y golofn ar y chwith)	Hyd at 5 o fflatiau
	1 bocs gwyrdd: cardfwrdd a gwydr	1 x bin 360 litr ar gyfer cerdyn/papur; 1 x bin 360 litr ar gyfer plastigion/caniau; 1 x bin 240 litr ar gyfer gwydr; 1 x bin 240 litr ar gyfer bwyd a chadis bwyd.	6-12 o fflatiau
	1 bag coch amldro: caniau, plastigau	1 x bin 660 litr ar gyfer cerdyn/papur; 1 x bin 660 litr ar gyfer plastigion/caniau; 1 x bin 360 litr ar gyfer gwydr; 1 x bin 240 litr ar gyfer bwyd a chadis bwyd	12-18 o fflatiau

Os oes angen unrhyw gyngor neu gymorth arnoch ar safonau trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth, cysylltwch â:

Ffôn: 01633 656656

E-bost: [hmo@newport.gov.uk](mailto:hmo@newport.gov.uk) Gwefan: [www.newport.gov.uk/hmo](http://www.newport.gov.uk/hmo)

**LLINELL FRYS ADRODD AM  
LANDLORD TWYLLODRUS**

llinell frys gyhoeddus dienw 24 awr  
01633 235233



	1 cad i bwyd bach (mewnol) ac 1 cad i bwyd mawr (allanol) ar gyfer gwastraff bwyd	2 x bin 660 litr ar gyfer cerdyn/papur; 2 x bin 660 litr ar gyfer plastigion/caniau; 2 x bin 360 litr ar gyfer gwydr; 1 x bin 240 litr ar gyfer bwyd a chadis bwyd.	18-24 o fflatiau
--	---	---	------------------

\*Os yw'r preswylwyr yn cynhyrchu mwy o ailgylchu, gallant ofyn am gynwysyddion ailgylchu ychwanegol ar gais

Capasiti (litr)	Lled (mm)	Dyfnder (mm)	Uchder (m)
240	575	730	1060
360	580	875	1080
660	1360	780	1190

34. Ar adeg cyhoeddi'r drwydded, nid yw'r eiddo yn bodloni'r gofynion hyn; bydd deiliad y drwydded yn cwblhau'r gwaith a nodir yn yr atodiad wedi'i atodi o fewn cyfnod o (insert timescale) i ddyddiad cyhoeddi'r drwydded.

35. Bydd deiliad y drwydded yn rhoi gwybod i Dîm Rheoli Gwastraff Cyngor Dinas Casnewydd yn syth ar ôl cael gwybod am fin coll/wedi'i ddwyn neu ei ddifrodi er mwyn cael un newydd yn syth; mae'r un peth yn berthnasol o ran rhoi gwybod i Wastesavers am gynwysyddion ailgylchu neu gyfleusterau storio. Bydd methu â rhoi gwybod am hyn yn gallu arwain at beidio â chasglu'r gwastraff.

36. Bydd deiliad y drwydded yn sicrhau bod tenantiaid yn cael eglurhad ar ddechrau'r feddiannaeth, ynghylch y trefniadau storio a gwaredu sydd ar waith mewn perthynas â gwastraff a'r angen i gydymffurfio â pholisi casgliadau Cyngor Dinas Casnewydd fel y nodir yn y [Canllaw Casgliadau](#). Bydd y biniau a'r cynwysyddion yn cael eu rhoi allan i'w casglu erbyn 7:00am ar ddiwrnod y casgliad waeth beth yw'r amser y mae'r criw yn cyrraedd fel arfer. Ymhellach i hyn, bydd deiliad y drwydded yn cael ac yn cadw'n ddiogel ar ddechrau'r feddiannaeth y datganiad wedi'i lofnodi gan bob meddiannwr yn deall y trefniadau, a'i gytundeb i lynu atynt. Mae'r Datganiad Dealltwriaeth sydd ei angen yn Atodiad A y drwydded hon. Caiff copïau o'r datganiad wedi'i lofnodi eu cadw mewn llyfr log a'u cyflwyno i'r awdurdod lleol o fewn saith diwrnod o gais o'r fath.

37. Bydd deiliad y drwydded yn sicrhau lle bo'n bosibl nad yw unrhyw wastraff yn deillio o waith adeiladu neu welliannau i'r tŷ yn cronni yng nghwrtel yr eiddo. Os nad yw hyn yn bosibl, bydd yn cael ei waredu heb oedi i gyfleuster gwaredu gwastraff trwyddedig.

38. Bydd deiliad y drwydded yn cymryd yr holl gamau rhesymol fel rheolwr eiddo diwyd i sicrhau bod pob tenant yn storio ac yn gwaredu ei wastraff mewn modd priodol. Gall camau o'r fath gynnwys cyngor ar lafar neu'n ysgrifenedig ac ati fel sy'n briodol. Os yw gwastraff yn cronni, bydd deiliad y drwydded yn trefnu i gariwr gwastraff cofrestredig waredu'r gwastraff neu'n gwaredu'r gwastraff

Os oes angen unrhyw gyngor neu gymorth arnoch ar safonau trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth, cysylltwch â:

Ffôn: 01633 656656

E-bost: [hmo@newport.gov.uk](mailto:hmo@newport.gov.uk) Gwefan: [www.newport.gov.uk/hmo](http://www.newport.gov.uk/hmo)

**LLINELL FRYS ADRODD AM  
LANDLORD TWYLLODRUS**

llinell frys gyhoeddus dienw 24 awr  
01633 235233

ei hun drwy fynd ag ef i gyfleuster gwastraff trwyddedig addas; Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref neu safle tirlenwi yn Docks Way, Maesglas, Casnewydd, Gwent NP20 2NS.

39. Dylai deiliad y drwydded roi gwybod i denantiaid na chaniateir cronni dodrefn di-angen, cyfleusterau a dodrefn arall y cartref mewn iardiau, gerddi neu gyrtiau blaen eiddo a bod modd gwaredu'r eitemau hynny drwy drefnu casgliad gyda ffi fechan, neu drwy fynd â nhw i'r Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref yn Docks Way, Maesglas, Casnewydd, Gwent NP20 2NS I gael mwy o wybodaeth am gasgliadau eitemau swmpus, amseroedd agor y Ganolfan Ailgylchu a'r eitemau a dderbynnir yno ewch i <https://www.newport.gov.uk/cy/Waste-Recycling/Waste-Recycling.aspx>
40. Bydd unrhyw wastraff y mae meddiannwyr yn ei adael yn yr eiddo yn cael ei waredu gan ddeiliad y drwydded cyn gynted â phosibl ar ran y tenantiaid newydd sy'n meddiannu'r eiddo.
41. Bydd deiliad y drwydded yn sicrhau bod pob tenant yn llwyr ymwybodol o'i gyfrifoldebau o ran cadw'r gerddi, yr ierdydd a'r cyrtiau blaen yn lân.
42. Bydd deiliad y drwydded yn sicrhau bod gerddi, cyrtiau blaen a waliau ffiniol/ffensys yr eiddo yn rhydd rhag gordyfiant, sbwriel neu Gronni arall ac yn cael eu cynnal yn lan ac yn daclus.

### **Sŵn ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol**

43. Bydd deiliad y drwydded yn cymryd yr holl gamau rhesymol ac ymarferol i atal neu leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol ac i reoli sŵn gan bobl sy'n byw yn y tŷ neu'n ymweld ag ef. Bydd hyn yn cynnwys y canlynol:-
- i) Yr hyn a olygir gan ymddygiad gwrthgymdeithasol
  - ii) Y safonau a ddisgwylir gan y tenantiaid a'u hymwelwyr
  - iii) Egluro goblygiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol ar bobl eraill yn yr ardal, gan gynnwys sgil-ffeithiau gan yr heddlu, sefydliadau addysgol a'r awdurdod lleol.
  - iv) Cofnodi manylion pob cwyn a dderbynnir ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol.
  - v) Galw sancsiynau tenantiaeth i rym a chymryd camau dan y cytundeb tenantiaeth.
44. Yn dilyn derbyn gwybodaeth am ymddygiad gwrthgymdeithasol, bydd angen i bob tenant lofnodi'r datganiad sydd yn Atodiad A y drwydded hon. Rhaid cadw copi'au o'r Datganiad Dealltwriaeth mewn llyfr log a'u cyflwyno i'r Cyngor o fewn saith diwrnod o gais o'r fath.
45. Bydd deiliad y drwydded yn cydweithio â'r Cyngor er mwyn datrys problemau yn ymwneud â sŵn neu ymddygiad gwrthgymdeithasol a bydd, ar gais, yn dangos ei fod wedi cymryd camau rhesymol a chymesur i reoli'r broblem.
46. Bydd deiliad y drwydded yn cadw ac yn cynnal llyfr log. Bydd copi yn yr eiddo, a rhaid i'r llyfr fod yn gyfredol mewn perthynas â'r canlynol:
- Cytundebau tenantiaeth
  - Dogfennaeth/datganiad dodrefn
  - Atodiad A: Datganiad Dealltwriaeth gan gynnwys rhagofalon tân, trefniadau gwastraff, sŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a datganiadau rheoli gwastraff.
  - Tystysgrifau diogelwch nwy
  - Tystysgrifau Gosodiadau Trydanol Diogel
  - Tystysgrifau Profion Dyfeisiau Cludadwy
  - Cofnodion gwasanaeth Larymau Tân

Os oes angen unrhyw gyngor neu gymorth arnoch ar safonau trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth, cysylltwch â:

Ffôn: 01633 656656

E-bost: [hmo@newport.gov.uk](mailto:hmo@newport.gov.uk) Gwefan: [www.newport.gov.uk/hmo](http://www.newport.gov.uk/hmo)

**LLINELL FRYS ADRODD AM  
LANDLORD TWYLLODRUS**

llinell frys gyhoeddus dienw 24 awr  
01633 235233

- Tystysgrifau profion Larymau Tân
- Cofnodion gwasanaeth diffoddwyr tân
- Tystysgrifau prawf goleuadau argyfwng (os yn berthnasol)
- Copi o'r drwydded TA a'r amodau.
- Archwiliadau gwasanaethau neu dderbynebion ar gyfer unrhyw offer diffodd tân sydd yn yr eiddo.
- Rhoi taflenni gwybodaeth i'r meddianwyr mewn perthynas â gwaredu a chynnal a chadw/storio gwastraff, ymddygiad gwrthgymdeithasol, diogelwch tân ac ati.

### **Atodlen 1 Diogelwch Tân**

### **Atodlen 2 Safonau Amwynderau**

### **Amodau Ychwanegol: Atodiad**

Os oes angen unrhyw gyngor neu gymorth arnoch ar safonau trwyddedu  
Tai Amlfeddiannaeth, cysylltwch â:

Ffôn: 01633 656656

E-bost: [hmo@newport.gov.uk](mailto:hmo@newport.gov.uk) Gwefan: [www.newport.gov.uk/hmo](http://www.newport.gov.uk/hmo)

LLINELL FRYS ADRODD AM  
LANDLORD TWYLLODRUS

llinell frys gyhoeddus dienw 24 awr  
01633 235233